

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol rolau hyblyg sy'n galluogi ein pobl i roi o'u gorau, ehangu eu sgiliau a rheoli llwybr eu gyrfaoedd. Nid yw'r proffil swydd hwn wedi'i fwriadu i fod yn rhestr drwyadl o'ch dyletswyddau. Yn hytrach na hynny, mae'n rhoi amlinelliad i chi o'r hyn y bydd eich rôl yn ei olygu. Eich penderfyniad chi fydd gweithio gyda'ch cydweithwyr i ddatblygu a siapio eich gwaith yn unol â'n hamcanion strategol ac amcanion eich tîm.

## Swyddog Gwybodaeth a Dysgu

### *Ein swyddogion*

Fel swyddog o fewn y Gronfa, beth bynnag fo'ch arbenigedd, fe fydd gennych ddigon o gwmpas ar gyfer ymreolaeth a chyfrifoldeb. Fe fyddwch yn defnyddio eich barn a'ch gwybodaeth i wneud argymhellion a phenderfyniadau, a bydd eich sgiliau wrth ddeall anghenion gwahanol gwsmeriaid, gan gynnig cyngor ac adborth, yn dod i'r amlwg. Ni fyddwch angen llawer o oruchwyliaeth nac arweiniad gan eich cydweithwyr uwch gan y byddwch yn cymryd arweinyddiaeth a rheolaeth bersonol dros eich gwaith a'ch datblygiad eich hunan. Fe fyddwch yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn dylanwadu ac yn ymgysylltu mewn ffordd bositif gyda'n cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid yn fewnol ac yn allanol.

### *Eich rôl*

Yn y rôl benodol hon, byddwch chi'n creu ac yn rhannu gwybodaeth a dysgu o waith y Gronfa a'r gwaith rydyn ni'n ei gefnogi ar lawr gwlad.

Bydd casglu tystiolaeth o effaith, polisi ac arfer o ffynonellau mewnol ac allanol yn hanfodol yn y rôl hon. Byddwch yn treulio amser yn hwyluso dysgu sefydliadol ac unigol, gan arwain gweithgaredd mewn themâu o ddiddordeb penodol a/neu gefnogi a galluogi timau lleol i wneud hyn yn dda yn eu hardaloedd. Byddwch yn gosod blaenoriaeth uchel ar gasglu gwybodaeth i lywio polisi ac arfer, gan gynnwys dysgu gan fudiadau eraill, gan sganio'r amgylchedd am wybodaeth am yr hyn y mae eraill yn ei wneud, nodi dysgu trosglwyddadwy, a chynnal rhwydweithiau mewnol ar draws y pedair gwlad.

Mae'n debygol y byddwch chi'n canolbwyntio ar thema benodol yn ein gweithgareddau gwneud grantiau. Byddwch yn ymgymryd â gweithgaredd i ddysgu ohono a gwella grantiau'r Gronfa yn barhaus a bydd eich gwaith yn gwella cyrhaeddiad ac effaith yr ariannu. Ar draws y flwyddyn byddwch yn rhoi cyngor i gydweithwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar sut y gall ariannu gael yr effaith fwyaf, gan ddefnyddio'ch dadansoddiad o batrymau gwneud grantiau yn y gorffennol, dysgu am arfer effeithiol a gwybodaeth am y cyd-destun polisi ehangach.

Bydd eich gwaith yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n ymwybodol o waith y Gronfa ac yn ei ddefnyddio. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o offer cyfathrebu i greu a rhannu dysgu, gan ysgrifennu mewn modd difyr a chryno gyda pharch at y gynulleidfa, gan gyflwyno canfyddiadau ar lafar i ystod o gynulleidfaoedd, a hyrwyddo dysgu trwy rwydweithiau, gan

gynnwys ar-lein. Bydd nodi carfan bersonol o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol ac ymgysylltu â nhw, datblygu, a chynnal perthnasoedd ac annog cydweithredu, yn arwain atoch yn cael eich ystyried yn hysbyswr a dylanwadwr gwerthfawr.

Yn olaf, mae'n bosib y bydd cyfle hefyd i chi gwmpasu a phennu contractau, fel y rhai ar gyfer ymchwil allanol, gwerthuso neu gefnogaeth arbenigol, a chysylltu â'n contractwyr ar sail bob dydd. Bydd cadw i fyny gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion cymdeithasol, polisi cyhoeddus a'r trydydd sector yn eich helpu i gyflawni'n effeithiol.

Wrth reswm, bydd angen i chi hefyd weithio o fewn polisiâu a gweithdrefnau'r Gronfa a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, ac mewn modd sy'n unol â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion. Os yw'r swydd wedi'i lleoli yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn orfodol.

Mae'r uchod yn berthnasol ar gyfer pob rôl, ond yn dibynnu ar eich cefndir a'ch profiad byddwch chi'n gweithio yn un o'r meysydd canlynol:

## Data

Byddwch yn cyrchu ac yn dadansoddi'r ystod eang o ddata sydd gan y Gronfa ac yn helpu pobl eraill yn y mudiad i'w ddeall er mwyn iddynt allu ei defnyddio i lywio eu gwaith. Bydd eich gwaith yn arwain at reoli ein data yn well, yn cael ei defnyddio mwy, ac yn dylanwadu mwy ar ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Bydd eich ymagwedd yn eich galluogi i ddarparu cyfres o adroddiadau/dangosfyrddau safonol a phwrpasol i Bwyllgorau, uwch staff y gyfarwyddiaeth, rheolwyr, ac unrhyw wneuthurwyr penderfyniadau perthnasol eraill (megis paneli lleol) gan dynnu sylw at gyrhaeddiad ac effaith gweithgareddau gwneud grantiau'r Gronfa. Byddwch yn cael cyfle i ymgymryd â phrosiectau ymchwil byr ar ystod o bynciau a materion, gan ddefnyddio data a'ch gwybodaeth am ein grantiau a'r cyd-destun polisi ehangach.

## Rhwydweithiau

Byddwch yn hwyluso eraill i ddysgu trwy gynnal digwyddiadau a chefnogi rhwydweithiau, creu cynnyrch sy'n gwneud y dysgu hwnnw'n hygyrch, ac yn ymgysylltu mewn modd rhagweithiol i rannu'r dysgu yn eang.

Byddwch yn rheoli prosiectau bach a rhaglen o ddigwyddiadau i gyflawni'r nod hwn. Dehongli gwybodaeth o un cyd-destun i'r llall, gan ddefnyddio rhwydweithiau mewnol ac allanol, a'r ystod lawn o offer cyfathrebu (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol) fydd eich ffocws cyffredinol. Byddwch yn gosod blaenoriaeth uchel ar gasglu gwybodaeth i lywio polisi ac arfer, gan gynnwys dysgu gan sefydliadau eraill, sganio'r amgylchedd, nodi dysgu trosglwyddadwy, a chynnal rhwydweithiau mewnol. Byddwch yn gwneud hyn trwy greu cynnyrch gwybodaeth a dysgu, a fydd yn cynnwys ysgrifennu mewn modd difyr a chryno gyda pharch at y gynulleidfa, gan ddefnyddio offer (megis Canva) i greu cynnyrch deniadol, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr i nodi'r cynnyrch a'r cyfleoedd dysgu cryfaf.

Wrth reswm, bydd angen i chi hefyd weithio o fewn polisiâu a gweithdrefnau'r Gronfa a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, ac mewn modd sy'n unol â'n gweledigaeth a'n hegwyddorion. Os

yw'r swydd wedi'i lleoli yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn orfodol.

## *Eich profiad*

Fel swyddog, efallai y byddwch wedi cael dyrchafiad trwy ein llwybrau gyrfaedd mewnol wedi i chi ddangos eich sgiliau a'ch galluoedd arwain neu fe allwch fod wedi dod o faes allanol fel arall. Y naill ffordd, bydd angen i chi arddangos eich profiad a'ch cymwysterau yn y meysydd hyn:

Fel swyddog, efallai y byddwch wedi cael dyrchafiad trwy ein llwybrau gyrfaedd mewnol wedi i chi ddangos eich sgiliau a'ch galluoedd arwain neu fe allwch fod wedi dod o faes allanol fel arall. Beth bynnag fo'ch arbenigedd, bydd angen i chi feddu ar ddealltwriaeth o'n gwaith a chwilfrydedd amdano. Y tu hwnt i hynny, bydd angen i chi arddangos eich profiad a'ch cymwysterau yn y meysydd hyn:

## Data

- Yn fedrus mewn sgiliau ymchwil, dadansoddi ac ymgynghori, gyda'r gallu i gymhwyso meini prawf ac egwyddorion
- Y gallu i ddefnyddio technolegau dadansoddi data ac offer delweddu newydd ac esblygol
- Deall dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol ac arfer dadansoddi data
- Y gallu i ysgrifennu a siarad am syniadau cymhleth, gwybodaeth ac effaith yn syml ac mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb
- Gwybodaeth am gyd-destun y trydydd sector, y dirwedd ariannu a pholisi cyhoeddus a'r bobl a'r mudiadau sy'n dylanwadu ar hyn
- Yn ddymunol wedi bod yn gweithio mewn rôl debyg / tasgau tebyg o'r blaen (dadansoddi, ysgrifennu, rhannu, datblygu polisi).

## Rhwydweithiau

- Hwyluso grwpiau - profiad o helpu eraill i weithio a dysgu ar y cyd, y gallu i gynnal trafodaethau sy'n gweld amrywiaeth o bobl yn rhannu ac yn trafod syniadau
- Sgiliau ymchwil, dadansoddi ac ymgynghori syml, gyda'r gallu i gymhwyso meini prawf ac egwyddorion
- Y gallu i ysgrifennu a siarad am syniadau cymhleth, gwybodaeth ac effaith yn syml ac mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb
- Gwybodaeth am gyd-destun y trydydd sector, y dirwedd ariannu a pholisi cyhoeddus (neu'n frwd i ddod â'ch sgiliau a'ch gwybodaeth i'r maes hwn)
- Profiad o weithio mewn rôl debyg / tasgau tebyg o'r blaen (hwyluso, dadansoddi, ysgrifennu, rhannu, ymgysylltu).

## *Yng Ngogledd Iwerddon*

- *Dealltwriaeth o'n dyletswydd cydraddoldeb a'r gallu i ymgysylltu, dadansoddi ac adrodd i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid*

## *Fe fyddwch yn gallu*

### **ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

- Cymryd rhan yn frwd wrth weithio tuag at nodau sydd wedi'u rhannu, ac annog eraill i wneud hyn yn yr un modd
- Bod yn ymroddedig tuag at weledigaeth ac egwyddorion y Gronfa, ac annog eraill i wneud hyn yn yr un modd
- Cymryd perchnogaeth o'ch datblygiad personol eich hunan trwy ddynodi eich cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad, gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i gefnogi hyn
- Bod yn chwaraewr tîm cefnogol sy'n dangos diddordeb mewn eraill, ac sy'n datblygu ystod o gysylltiadau y tu allan i'ch tîm eich hunan i helpu cyflawni'r gwaith

### **MEITHRIN PERTHNASOEDD GWYCH**

- Rhwydweithio yn fewnol ac yn allanol, gan roi eich hunan yn sefyllfa'r cwsmeriaid a gweithredu ar bethau sydd o bwys i bobl
- Cyfathrebu mewn dull gonest sy'n ennyn diddordeb, gyda'r gallu i ddylanwadu a thrafod gan ddefnyddio dadleuon da ac ystod o strategaethau i ddwyn perswâd ar eraill
- Gwrando'n weithgar, ac ymateb i eraill mewn ffordd wybodus, gan adnabod cyfraniad a gwerth safbwyntiau amrywiol

### **CYFRIFOLDEB PERSONOL**

- Gofyn am adborth a gweithredu arno'n barhaus i werthuso a gwella eich perfformiad eich hunan
- Aros yn ddigynnwrf o dan bwysau a thrafod blaenoriaethau lluosog sy'n cystadlu â'i gilydd, gan gefnogi eraill pan fo angen
- Cymryd perchnogaeth a bod yn atebol am eich gwaith eich hun, gan annog cydweithwyr i wneud yr un fath

### **CYFLWYNO**

- Dynodi cyfleoedd i rannu addysg a gwybodaeth, a gwneud gwelliannau trwy weithio gyda chydweithwyr
- Mynd ati'n weithgar i ddefnyddio'r systemau a data sydd ar gael i chi i gwblhau eich gwaith yn effeithiol ac i wella gwaith eich tîm
- Mynd ati'n weithgar i chwilio am wybodaeth sydd ar gael a'i ddadansoddi, gan ei ddefnyddio i gyflwyno gwybodaeth i ddod i farn a gwneud eich gwaith yn effeithiol
- Ymateb i faterion a thueddiadau a ddaw i'r amlwg sy'n effeithio ar eich gwaith, gwaith eich tîm, neu'r Gronfa
- Deall gofynion llywodraethu da a chynnig atebion i risgiau a phroblemau

## *Ein meddylfryd*

- Rwy'n angerddol am botensial gwneud grantiau ardderchog
- Rwy'n ymroddedig i rwydweithio effeithiol ar draws a'r tu hwnt i'r Gronfa
- Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a dyheadau cymunedau a chydweithwyr gan gydnabod yr angen i gyflwyno cyfle cyfartal
- Rwy'n gywrain ac yn chwilio o ddifrif am ffyrdd newydd o wneud pethau
- Byddaf yn gwrando, dysgu, darparu ac annog adborth a her
- Rwyf yn gyfrifol ac yn atebol am y gwaith a wnaif
- Rwy'n gweithio'n hyblyg ac yn gydweithiol i ddiwallu anghenion eraill

## Swyddog Gwybodaeth a Dysgu

<ul style="list-style-type: none"><li>• Rwy'n defnyddio gwybodaeth a phrofiad i rannu fy nysgu</li><li>• Rwyf eisiau gwneud y Gronfa yn lle gwych i weithio ynddo</li></ul>			
<b>Eich teulu swydd yw</b>	Cyflwyno Gweithredol	<b>Eich cyfarwyddiaeth yw</b>	Strategaeth Ariannu
<b>Eich dull gweithio yw</b>	Swyddfa	<b>Eich templed rôl yw</b>	Swyddog